

Penodi Uwch Safonwr TGAU (CBAC) Llenyddiaeth Gymraeg Uned 3

Mae angen Uwch Safonwr ar gyfer TGAU (CBAC) Llenyddiaeth Gymraeg Uned 3. Bydd gofyn i'r ymgeisydd llwyddiannus gydweithio'n agos â'r tîm TGAU Llenyddiaeth Gymraeg, gan sicrhau bod gofynion y cymhwyster hwn yn cael eu bodloni'n llawn. Disgwylir iddo ef/iddi hi gyfrannu at hyfforddiant safonwyr, gan arwain y broses gymedroli yn y gynhadledd safonwyr. Disgwylir iddo ef/iddi hi hefyd gyfrannu at gyflwyniad y rhaglen DPP a bod yn rhan o'r tîm yn ystod y broses ddyfarnu.

Cyfrifoldebau Uwch Safonwr

Mae'r Uwch Safonwr yn gyfrifol am osod y tasgau a gosod y safonau ar gyfer safoni gwaith sy'n cael ei asesu'n fewnol gan y canolfannau. Rhaid i'r Uwch Arholwr wneud y canlynol:

- cyngori ar benodi, hyfforddi ac ailbenodi, lle bo angen, arweinwyr tîm a safonwyr;
- mynychu a goruchwyllo'r Cynadleddau Safonwyr a/neu'r cyfarfodydd dethol eitemau safoni fel y bo'n briodol, a hefyd i fynychu cyfarfodydd dyfarnu yn ôl gofynion CBAC;
- goruchwyllo gwaith aelodau ei d/thîm ac archwilio safonau marcio'r safonwyr drwy broses samplu;
- monitro safonau holl safonwyr yr uned hon, gan gynnwys, lle bo angen, unrhyw safonwyr cynorthwyol ac arweinwyr tîm, ac i weithredu'n briodol er mwyn sicrhau cywirdeb a chysondeb;
- goruchwyllo a chymeradwyo adroddiadau i ganolfannau fydd wedi'u paratoi gan y safonwyr;
- paratoi adroddiad cyffredinol ar yr uned, gan ddilyn ffurf y bydd CBAC wedi'i phennu;
- bod ar gael i wneud gwaith marcio adolygol ar bob sesiwn yn ôl gofynion CBAC mewn perthynas ag Ymholiadau am Ganlyniadau yn ystod y cyfnodau perthnasol.

Mae swydd Uwch Safonwr yn ganolog i weithrediad y cymhwyster, ac oherwydd hynny ar gyfer y pwnc hwn mae angen ymrwymo cryn dipyn o amser i'r gwaith. Mae angen i Uwch Safonwr fod ar gael am o leiaf tri diwrnod y flwyddyn a allai fod yn ystod y tymor, ar benwythnosau ac yn ystod y gwyliau. Bydd tâl rhyddhau o ganolfannau ar gael. Bydd hyn yn galluogi deiliad y swydd i fynychu cynhadledd y safonwyr (un diwrnod) a'r gynhadledd dyfarnu yng Ngorffennaf (dau ddiwrnod). Efallai y bydd gofyn i Uwch Arholwyr wneud cyflwyniadau mewn digwyddiadau DPP CBAC hefyd.

I gael gwybod mwy, cysylltwch ag Manon Maddock (029) 2026 5004 neu e-bost (manon.maddock@cbac.co.uk) Y dyddiad cau i gyflwyno ceisiadau yw **20 Medi 2024**.

Sut i wneud cais:

Os ydych chi'n dymuno gwneud cais am y swydd, ac **nad ydych yn gweithio** i CBAC ar hyn o bryd, ewch i <https://appointees.wjec.co.uk> a chlicio 'Gwneud Cais i fod yn Arholwr' i lenwi'r ffurflen gais.

Os ydych chi'n gweithio i CBAC ar hyn o bryd, mewn gofnodwch i'ch cyfrif Porth Rheoli Penodiadau (gan ddefnyddio eich enw defnyddiwr newydd) a chliciwch ar yr eicon 'Fy Nghais' ar yr hafan. Gwnewch yn siŵr eich bod yn ychwanegu rôl **Uwch Safonwr TGAU (CBAC) Llenyddiaeth Gymraeg Uned 3** ar y tab 'maes pwnc', a llenwch feysydd eraill y cais.

Os oes amnoch angen unrhyw gymorth pellach, cysylltwch â:-

Rob Reynolds
rob.reynolds@wjec.co.uk
02920 265 050

neu Emily Safadi
emily.safadi@wjec.co.uk
02920 265 305